Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 27 Ionawr 2014**

Amser:
**14:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Gareth Williams**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8008/8019
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

## Agenda

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

## 2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 (Tudalennau 1 - 2)

CLA(4)-03-14 – **Papur 1** – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir

<u>Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Negyddol</u>

**CLA350 – Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014**

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 13 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 15 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 5 Chwefror 2014

**CLA351 – Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2014**

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 14 Ionawr 2014; Fe'u gosodwyd ar: 16 Ionawr 2014; Yn dod i rym ar: 10 Chwefror 2014

**CLA352 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2014**

Y weithdrefn negyddol; Fe'i gwnaed ar: 15 Ionawr 2014; Fe'i gosodwyd ar: 16 Ionawr

2014; Yn dod i rym ar: 14 Chwefror 2014

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

(vi) lle mae'r pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi; neu'n ymbaratoi i gael tystiolaeth gan unrhyw berson.

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y Pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

**Ystyried adroddiad drafft ynghylch yr ymchwiliad i rôl Cymru yn y broses o wneud penderfyniadau yn yr UE** (Tudalennau 3 - 36)

CLA(4)-03-14 – **Papur 2** – Adroddiad Drafft
**CLA(4)-03-14 – Paper 2A** – Materion Allweddol
**CLA(4)-03-14 – Paper 2B** – Nodyn Cyfarfod, 9 Rhagfyr 2013

**Ystyried ymchwiliadau posibl yn y dyfodol: y profiad o ddeddfu yn y Pedwerydd Cynulliad** (Tudalennau 37 - 43)

CLA(4)-03-14 – **Papur 3** – Ymchwiliadau yn y Dyfodol

**Crynodeb o'r Dystiolaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig Bil drafft Cymru**
(Tudalennau 44 - 64)

CLA(4)-03-014 – **Papur 4** – Crynodeb o'r Dystiolaeth

CLA(4)-03-014 – **Papur 4A** – Gwybodaeth Gefndirol

**Gohebiaeth Clerc y Pwyllgor â'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol**
(Tudalennau 65 - 69)

CLA(4)-03-14 – **Papur 5** – Llythyr Clerc y Pwyllgor at Glerc y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol

CLA(4)-03-14 – **Papur 6** – Llythyr gan Glerc y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol at Glerc y Pwyllgor

## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

CLA(4)-03-14: Papur 1

GWYBODAETH GEFNDIR AM OFFERYNNAU STATUDOL GYDAG ADRODDIADAU CLIR

### CLA350 - Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) (Diwygio) 2014

**Gweithdrefn:** Negyddol

Gwnaeth Rheoliadau Addysg (Cwricwlwm Lleol ar gyfer Disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 4) (Cymru) 2009 ("Rheoliadau 2009") ddarpariaeth o ran llunio'r cwricwlwm lleol, y dewisiadau y caiff disgybl eu gwneud, penderfyniad y pennaeth o ran hawlogaeth, a phenderfyniad y pennaeth i ddileu hawlogaeth.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2009 fel bod rhaid i awdurdod lleol gynnwys lleiafswm o 25 o gyrsiau yn ei gwricwlwm lleol, y mae rhaid i 3 ohonynt fod yn rhai galwedigaethol (rheoliad 2(a)). Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn diddymu rheoliadau 5 i 7 o Reoliadau 2009 fel nad oes gofyniad bellach i gyrsiau astudio yn y cwricwlwm lleol, na dewis y disgybl o gyrsiau cwricwlwm lleol, gael gwerth lleiafswm o bwyntiau (rheoliad 2(b)).

### CLA351 - Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) (Diwygio) (Cymru) 2014

**Gweithdrefn:** Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Adeiladu (Arolygwyr Cymeradwy etc.) 2010 ('Rheoliadau 2010').

Roedd Rheoliadau 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i arolygwyr a gymeradwywyd gan gorff a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru gyflwyno copi o'r hysbysiad cymeradwyo, ynghyd â hysbysiadau a thystysgrifau

penodol a nodir yn Atodlen 1 i Reoliadau 2010. Roedd hefyd yn ofynnol i'r arolygwyr gynnwys, ynghyd â hysbysiadau a thystysgrifau penodol, datganiad wedi'i lofnodi gan yr yswiriwr yn nodi bod cynllun yswiriant penodol a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru yn gymwys i'r gwaith y mae hysbysiad neu dystysgrif yn berthnasol iddo.

Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofynion hynny ac yn cyflwyno gofyniad yn eu lle i'r hysbysiadau a'r tystysgrifau perthnasol ddatgan bod copïau o'r hysbysiad cymeradwyo a'r datganiad yswiriant ar y gofrestr a gedwir gan y corff dynodedig (sef Cofrestr Arolgywyr Cymeradwy Cyngor y Diwydiant Adeiladu ar hyn o bryd) mewn perthynas â Chymru.

**CLA352 – Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2014**

**Gweithdrefn**: Negyddol

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi unedau cynhyrchu ar gyfer asesu gallu cynhyrchiol tir amaethyddol a leolir yng Nghymru ac yn pennu'r swm sydd i'w ystyried yn incwm blynyddol net o bob uned o'r fath am y flwyddyn o 12 Medi 2013 i 11 Medi 2014 at ddibenion penodol yn Neddf Daliadau Amaethyddol 1986. Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Daliadau Amaethyddol (Unedau Cynhyrchu) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/3022 (Cy.306)).

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon